| **CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD & YNYS MÔN (2011 – 2026)** | |
|---|---|
| **ARCHWILIAD CYHOEDDUS:**<br>**Sesiwn gwrandawiad 3 – Dosbarthiad Gofodol** | CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL |

**Pwynt Gweithredu (S3/PG7) – Sicrhau bod y dosbarthiad tai fesul haen ym Mholisi PS 15 yn gyson gyda'r wybodaeth ym Mhapur Testun 20A**

**1] Y Mater dan Ystyriaeth:**

**Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i sicrhau bod y dosbarthiad tai fesul haen ym Mholisi PS 15 yn gyson gyda'r wybodaeth ym Mhapur Testun 20A a gwneud unrhyw newidiadau cysylltiol angenrheidiol i eirfa mewn rhannau eraill o'r Cynllun i sicrhau cysondeb mewnol.**

**2] Ymateb y Cynghorau:**

2.1 Mae'r dosbarthiad o dai a gofnodwyd ym Mholisi PS 15 yn y Cynllun Adneuo (CDLL.004) o fewn y Cynllun yn adlewyrchu'r nod strategol o gyfeirio 55% o Brif Ganolfannau, 20% o Ganolfannau Gwasanaeth Lleol a 25% o Bentrefi, Clystyrau a Chefn Gwlad Agored.

2.2 Mewn gwirionedd nid oedd yn ymarferol i gyfarch y nod strategol yn union. Gwelwyd eithriadau pan nad all aneddiadau penodol ymdopi efo'i lefel twf dangosol. Yn y fath achosion, fel y amlinellwyd o fewn Pennod 8 o Bapur Testun 5A 'Datblygu'r Strategaeth Aneddiadau' (PT.012), ail-ddosberthir y twf hwn i aneddiadau lefel uwch neu is o fewn yr un dalgylch.

2.3 Wrth ymgymryd a'r gwaith ar Bwynt Gweithredu S3/PG8 (Lefel Twf ar Hap Newydd) fe welwyd bod lefel twf dangosol ar gyfer Porthmadog yn is na beth ddylai fod. Er mwyn sicrhau bod y wybodaeth am y cyflenwad tai yn y tablau yn cyd-fynd gyda chyfanswm y cyflenwad tai yn ardal y Cynllun dylai cyfanswm cyflenwad tai Porthmadog fod yn **150 uned** yn lle **128 uned**.

2.4 Golyga hyn mae'r aneddleoedd a gafodd eu heffeithio oedd Porthmadog - methu cymryd 151 uned o'i lefel twf dangosol, Llanberis - methu cymryd 5 uned, a Thremadog - methu cymryd 28 uned.

2.5 O ran effaith ar y rhaniad 55%, 25% a 20%, golygai:
- 151 yn llai o unedau yn gyffredinol o fewn yr haen 55% oherwydd problem cyfarch lefel twf dangosol Porthmadog;
- 174 o unedau ychwanegol yn yr haen 20%, sef + 151 o lefel twf Porthmadog, a + 28 o lefel twf Tremadog ond – 5 o lefel twf Llanberis;

- 23 yn llai o unedau o fewn yr haen 25%, sef – 28 o lefel twf Tremadog ond +5 o lefel twf Llanberis.

2.6 Mae'r Cyngor yn gweld yr ailddosbarthiad hyn fel y ffordd orau o sicrhau fod lefel twf dangosol aneddleoedd unigol yn cael ei gadw o fewn eu dalgylchoedd ac yn parhau i sicrhau bod y Cynllun yn hyrwyddo twf i'r aneddleoedd all ymdopi orau gyda thwf oherwydd bod yna gyflenwad da o gyfleusterau a gwasanaethau angenrheidiol ynddynt. Cydnabyddir y dylid adlewyrchu'r gwir raniad twf i haenau y Cynllun ym Mholisi PS 15 a rhannau perthnasol o'r Cynllun. Bydd hyn yn sicrhau bod monitro y Cynllun yn seiliedig ar y dosbarthiad terfynol o dwf o fewn y gwahanol haenau yma.

2.7 Yn seiliedig ar y newidiadau a amlinellir ym mharagraff 2.5 uchod awgrymir y dylid cyflwyno newid materion sy'n codi i ganrannau y 3 haen ym mholisi PS 15 fel a ganlyn:

Tabl 1 – Newidiadau materion sydd yn codi i polisi PS15

| Haen | Canran o Dwf Tai y Cynllun |
|---|---|
| Prif Ganolfannau | 53% |
| Canolfannau Gwasanaeth Lleol | 22% |
| Pentrefi, Clystyrau a Chefn Gwlad | 25% |

2.6 Yn ogystal a'r newid i'r ffigyrau yma ym mholisi PS15 dylid hefyd newid y rhannau canlynol o'r cynllun:

Tabl 2 – Newidiadau materion sydd yn codi i ffigyrau % twf yn rhannau eraill o'r Cynllun

| Rhan o'r Cynllun Cyfansawdd (CDLL.028) | Newid % lefel twf | | |
|---|---|---|---|
| | o | ➔ | i |
| Paragraff 6.42 | 55% | ➔ | 53% |
| | 20% | ➔ | 22% |
| | 25% | ➔ | 25% |
| Paragraff 7.4.109 | 55% | ➔ | 53% |
| Tabl 17 | Hyd at 55% | ➔ | 53% |
| | O leiaf 20% | ➔ | 22% |
| | Dim mwy na 25% | ➔ | 25% |
| Pennod 8 – Thema 2 Byw'n Gynaliadwy D16 (Targedau Polisi) | 55% | ➔ | 53% |
| | 20% | ➔ | 22% |
| | 25% | ➔ | 25% |